**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Adroddiad (SLC (3) 02-10)**

**Dyddiad:** **21 Ionawr 2009**
**Amser:** **9.00am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

## Cynnwys

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 21 Ionawr 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, a William Graham AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC a Rhodri Morgan AC (roedd Joyce Watson yn dirprwyo).

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2 a 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC377 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 21 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 23 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 20 Ionawr 2010

**SLC378 - Rheoliadau Ensymau Bwyd (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 21 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 23 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 20 Ionawr 2010

**SLC380 - Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 11 Ionawr 2010. Fe'i gosodwyd ar 13 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a/neu 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC379 - The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2010** (fe'u gwnaed yn Saesneg yn unig)
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Ionawr 2010. Fe'u gosodwyd ar 12 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 13 Ionawr 2010

**SLC372 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 17 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 8 Ionawr 2010

Ni wnaeth y Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar yr Offeryn Statudol hwn tan heddiw er mwyn rhoi amser i Lywodraeth Cymru ystyried adroddiad posibl o dan Reol Sefydlog 15.3. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y pwyntiau y cyflwynwyd adroddiad arnynt gan y Pwyllgor, penderfynodd y Llywodraeth beidio ag anfon ei hymateb.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 a 15.3 ar y Rheoliadau hyn ynghlwm yn Atodiadau 1-2.

**Unrhyw fater arall**

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion a monitro canlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol**

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ar lafar gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe, a gynrychiolwyd gan yr Athro Tim Jones, Ysgol y Gyfraith. Cytunodd Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe , i ddarparu nodyn yn rhestru enghreifftiau penodol o effaith ymarferol defnyddio eithriadau mewn gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ar lafar gan Brifysgol Bangor, a gynrychiolwyd gan Dewi Llyr Jones, Darlithydd yn y Gyfraith. Cytunodd Mr Jones i ddarparu nodyn yn egluro a oes unrhyw gydberthynas rhwng tarddiad deddfwriaeth, hynny yw, o Whitehall neu Frwsel neu ddeddfwriaeth a ddrafftiwyd gan Lywodraeth Cymru, a nifer y pwyntiau adrodd a godwyd. Yn yr un modd, a oes unrhyw gydberthynas rhwng cywirdeb deddfwriaeth yr ymgynghorwyd arni ar ffurf ddrafft a deddfwriaeth na fu'n destun gwaith ymgynghori.

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

Bu'r Pwyllgor yn trafod ymatebion Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lythyrau'r Cadeirydd ynghylch SLC356 - Rheoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009 a'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007.

SLC356 - Rheoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009: Roedd Aelodau yn pryderu tra bo'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r opsiwn i Ddirprwy Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol fynychu cyfarfodydd y Cyd-

bwyllgor yn lle'r Prif Weithredwyr eu hunain, nid oedd y Rheoliadau eu hunain yn darparu ar gyfer opsiwn o'r fath. Ar ôl ystyried ymateb y Gweinidog, cytunodd y Pwyllgor i ofyn am gael gweld Rheolau Sefydlog y Cydbwyllgor pan gaiff y Rheolau eu drafftio.

Y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007- yn y cyfarfod ar 25 Tachwedd, nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw reoliadau wedi eu cyhoeddi o ganlyniad i'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG hyd yma. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog yn egluro hyn ac, ar ôl ystyried ei hymateb - sef y bydd yr offeryn statudol drafft terfynol a gyhoeddwyd o ganlyniad i'r Mesur yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ac y bydd yn cael ei osod erbyn canol mis Mai 2010 - penderfynodd yr Aelodau ofyn am gael gweld hwn ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall yn ystod y drafftiau cynnar.

**Ystyried y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr**

Fel rhan o'r gwaith o graffu ar y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (gall y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru"), cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Cytunodd y Gweinidog i gadarnhau a fyddai Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu yn y meysydd a nodwyd yn y Mesur Seneddol.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth am y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
**21 Ionawr 2009**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-02-10)**

**SLC372**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Cyfarwyddeb AEA), yn ei gwneud yn ofynnol bod prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yn destun asesiad o ran eu heffeithiau, cyn rhoi caniatâd datblygu. Rhoddodd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2000 ofynion Cyfarwyddeb AEA fel y'i troswyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 ar geisiadau i adolygu hen ganiatadau mwynau (ROMP) a wnaed ar 15 Tachwedd 2000 neu wedi hynny (ynghyd â "Rheoliadau AEA"). Mae Rheoliadau 2009 yn rhoi gofynion Cyfarwyddeb AEA ar geisiadau ROMP yng Nghymru a wnaed cyn 15 Tachwedd 2000 sy'n aros i gael eu pennu ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym. Gelwir yr achosion hyn fel arall yn adolygiadau sydd wedi'u gohirio.

**Craffu technegol**

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

1. Paragraff 4 o Atodlen 3 [Hysbysiadau o dan reoliad 11] Mae "Barnau cwmpasu gan yr awdurdod cynllunio mwynau perthnasol", yn cyfeirio'n wallus at reoliad 11 pan ddylai gyfeirio at reoliad 12 gan fod rheoliad 12 yn cyfeirio at "Farnau cwmpasu gan yr awdurdod cynllunio mwynau perthnasol" lle mae rheoliad 11 yn cyfeirio at "Gyfarwyddiadau sgrinio gan Weinidogion Cymru." [Rh.S.15.2 Drafftio diffygiol]. Mae hyn yn berthnasol yn y ddwy iaith.

Mae Atodlen 3 ("Hysbysiadau") o Drefn y Rheoliadau hefyd yn wallus gan y dylai rhif 2 gyfeirio at reoliad 12, gan mai'r rheoliad hwn, sy'n cyfeirio at "Farnau cwmpasu gan yr awdurdod cynllunio mwynau perthnasol" ac nid rheoliad 11 sy'n cyfeirio at "Gyfarwyddiadau sgrinio

gan Weinidogion Cymru." [Rh.S. 15.2 Drafftio diffygiol]. Mae hyn yn berthnasol yn y ddwy iaith.

2. Cyfeiriwyd yn wallus at y diffiniad a roddir o "ardaloedd sensitif", yn Rheoliad 2 (1) gan adran 29 (3) (gorchmynion cadwraeth natur), o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981("WCA 1981") gan ei fod wedi ei ddiddymu gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ss. 75 (1), 102, Atodlen 9, paragraff 2, Atodlen 16, adran 102. [Rh.S. 15.2 Drafftio diffygiol].

**Craffu ar rinweddau**

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii):

Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i ddyfarniad anffafriol gan Lys Cyfiawnder Ewrop lle roedd y Llys yn dal bod y DU wedi methu â chyflawni ei ymrwymiadau o dan y Gyfarwyddeb trwy fethu ag Adolygu Hen Ganiatadau Mwynau a gofnodwyd cyn 15 Tachwedd 2000 yn amodol ar ofynion Cyfarwyddeb AEA.

Mae'r Rheoliadau'n debygol o arwain at gostau sylweddol i weithredwyr, mwy na £100,000 ym mhob achos o bosibl, o ran darparu'r wybodaeth amgylcheddol a fydd yn ofynnol o ganlyniad i'r Rheoliadau. Gall fod costau sylweddol i weithredwyr hefyd o ran gwneud gwaith atgyweirio ac ôl-ofal. Gall y Rheoliadau hefyd arwain at golli cyfleoedd am swyddi os caiff gweithrediadau eu hatal neu eu gwahardd o ganlyniad i'r rheoliadau.

Mae methu â gweithredu newidiadau mewn ymateb i'r dyfarniad yn debygol o achosi i Lys Cyfiawnder Ewrop osod dirwyon sylweddol ar Lywodraeth y DU a allai fod hyd at amryw o filiynau o bunnoedd. Mae'n debygol y bydd manteision amgylcheddol hefyd a mwy o dryloywder o ran y defnydd o safleoedd yn y dyfodol ar gyfer trigolion lleol.

Mae'r Rheoliadau'n amleiriog ac yn gymhleth ac maent yn golygu costau a manteision posibl, sylweddol iawn i'r pwrs cyhoeddus, i weithredwyr ac i'r amgylchedd. Efallai y byddant hefyd o ddiddordeb sylweddol i drigolion lleol ar draws Cymru a all fod yn ystyried eu bod yn cael eu heffeithio gan ganiatadau mwynau.

Ar sail yr uchod, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y Rheoliadau'n codi materion o bolisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. [Rh.S. 15.3(ii)].

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r Rheoliadau'n rhoi'r pwynt adrodd a nodwyd yn ein hadroddiad SLC 192, ar waith mewn perthynas â rheoliad 9(3) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau

Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2008. Ar yr achlysur hwn mae'r Pwyllgor yn barod i dderbyn y rhesymau am hyn ond mae'n disgwyl i'r pwynt adrodd hwn gael sylw cyn gynted â phosibl.

Cafodd y Llywodraeth gyfle i ymateb i'r pwyntiau y cyflwynwyd adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.3 (ii), ond gwrthododd wneud hyn ar yr achlysur hwn.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**21 Ionawr 2009**

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y dylai'r cyfeiriadau at reoliad 11 yn y pennawd i baragraff 4 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau ac yn Nhrefn y Rheoliadau, fod yn gyfeiriadau at reoliad 12. Gan mai mân wallau teipograffyddol yw'r rhain mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'n briodol iddynt gael eu cywiro pan gyhoeddir hwynt.

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt a godwyd gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor ynglŷn â'r cyfeiriad gwallus at adran 29 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a geir yn y diffiniad o "ardal sensitif" yn rheoliad 2. Fe ddylid bod wedi tynnu'r term "ardal sensitif" o'r Rheoliadau gan nas defnyddir yn unman arall yn y Rheoliadau. Gan fod y term yn ddiangen nid oes unrhyw ganlyniadau cyfreithiol sylweddol yn codi ohono, ac nid yw'n cael unrhyw effaith sy'n rhagfarnu unrhyw berson. Bydd y Llywodraeth yn diwygio'r Rheoliadau i dynnu allan y term diffiniedig pan fydd yn dwyn ymlaen ddeddfwriaeth yn ddiweddarach eleni i ddiwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999.

Rhoddwyd ar ddeall i'r Llywodraeth y dichon y bydd y Pwyllgor yn dymuno gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.3. Byddai'r Llywodraeth yn croesawu'r cyfle i ymateb i unrhyw bwyntiau a ddynodir o dan Orchymyn Sefydlog 15.3 cyn i'r Pwyllgor roi ei adroddiad yn ei ffurf derfynol.

**Atodiad 2**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-02-10)**

**SLC379**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2010 (Saesneg yn unig)**

**Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004. Diben y diwygiadau hyn yw:

- gwneud darpariaeth yng Nghymru ar gyfer gweinyddu a gorfodi trawsgydymffurfio o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 ("Rheoliad y Cyngor") a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1122/2009 mewn perthynas â chynlluniau taliad o dan y polisi amaethyddol cyffredin.

- cyflwyno safonau amaethyddol a chyflwr amgylcheddol da ychwanegol mewn cysylltiad â thynnu dŵr ar gyfer dyfrhau a gwarchod nodweddion tirwedd. Mae Rheoliad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno'r safonau ychwanegol hyn.

**Craffu technegol**

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn.

Gwnaed y Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig, fel y gwnaed Rheoliadau 2004 sy'n cael eu diwygio. [Rheol Sefydlog 15.2(ix)]

**Craffu ar rinweddau**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau ar gyfer cyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn cysylltiad â'r offeryn/offeryn drafft hwn:

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**21 Ionawr 2010**

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

**Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2010**

"Bydd prif Reoliadau 2004 yn cael eu dirymu a'u hail-wneud, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ystod 2010. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd Rheoliadau diwygio 2010 yn cael eu dirymu".